**Mae'r rhestr yma'n amlinellu rhai o brif newidiadau'n ymwneud a bwyd a diod cynradd. Mae'r newidiadau amgen wedi gosod allan o fewn y Rheoliadau drafft.**

| **Ffrwythau, Llysiau a Carbohydradau startshlyd** | |
|---|---|
| **Cyfredol** | **Arfaethedig** |
| Rhaid darparu oleiaf un dogn o lysiau neu salad bob dydd. | Rhaid darparu o leiaf ddau ddogn o lysiau bob dydd (nid yn cynnwys tatws). Rhaid darparu o leiaf chwe llysieuyn gwahanol bob wythnos. |
| Rhaid darparu o leiaf un dogn o ffrwythau, salad ffrwythau neu sudd ffrwythau bob dydd. | Rhaid darparu o leiaf un dogn o ffrwythau bob dydd.<br>Rhaid darparu o leiaf bedwar ffrwyth gwahanol bob wythnos. |
| Dim rheoliadau ar gyfer<br>Carbohydradau startshlyd | Rhaid darparu dogn o garbohydradau startshlyd o leiaf deirgwaith bob wythnos.<br><br>O'r rhain, rhaid i o leiaf un dogn o garbohydradau startshlyd a ddarperir bob wythnos fod yn basta, reis neu nwdls sy'n cynnwys o leiaf 50% o rawn cyflawn.<br><br>Rhaid i bob math o fara a ddarperir fod o leiaf 50% o rawn cyflawn. |
| **Cig a Pysgod** | |
| **Cyfredol** | **Arfaethedig** |
| Rhaid darparu darnau cig ar o leiaf ddau ddiwrnod bob wythnos. | Rhaid cynnig **cig coch** o leiaf unwaith yr wythnos ond nid mwy na dwywaith yr wythnos.<br><br>Nid oes terfyn ar faint o gig gwyn gellir darpari. |
| Rhaid darparu dogn o bysgod o leiaf unwaith yr wythnos.<br><br>Rhaid darparu dogn o bysgod olewog o leiaf ddwywaith yn ystod unrhyw gyfnod o bedair wythnos | Rhaid darparu **dogn o bysgod** o leiaf unwaith bob wythnos (pysgod gwyn)<br><br>Rhaid i o leiaf un dogn o bysgod a ddarperir bob pedair wythnos fod yn **bysgod olewog** ee eog)<br><br>Rhaid i'r holl bysgod a ddarperir fod o **ffynonellau cynaliadwy.** |
| **Cyfredol** | **Arfaethedig** |

| | |
|---|---|
| Ni ddylid darparu cynhyrchion cig wedi'u prosesu (fel selsig neu fyrgyrs) fwy na dwywaith yr wythnos. | Ni ddylid darparu **cynhyrchion cig wedi'u prosesu** fwy nag unwaith yr wythnos.<br><br>Mae ham a bacwn bellach yn cael eu cyfrif fel cynhyrchion cig wedi'u prosesu (nid oeddent o'r blaen). |
| **Dewisiadau di-gig** | |
| **Cyfredol** | **Arfaethedig** |
| Dim rheoliadau ar gyfer dewisiadau di-gig | Ni ellir darparu mwy na dau ddogn o ddewisiadau amgen wedi'u prosesu yn lle cig a physgod bob wythnos (e.e. bysedd di-bysgod) |
| Dim rheoliadau ar gyfer caws fel y prif ffynhonnell o brotein | Ni chaniateir darparu cinio ysgol â **chaws fel y brif ffynhonnell o brotein** fwy na dwywaith bob wythnos. |
| **Tatws wedi'u coginio mewn olew, bwydydd wedi'u ffrio, nwyddau wedi'u pobi a phwdinau wedi'u melysu, a phasteiod** | |
| **Cyfredol** | **Arfaethedig** |
| Ni ddylid darparu dogn o datws neu gynnyrch tatws sydd wedi'i goginio mewn braster neu olew fwy na dwywaith yr wythnos | Ni chaniateir darparu dogn o datws na chynhyrchion tatws sydd wedi'u coginio mewn braster neu olew fwy na dwywaith bob wythnos, a phan y'u darperir ni chaniateir i fwy nag un dogn fod wedi'i ffrio'n ddwfn |
| Ni ddylid darparu dogn o fwyd (ac eithrio tatws a chynhyrchion tatws), gan gynnwys cynhyrchion bwyd wedi'u paratoi, eu gorchuddio, eu cytewio a'u bara, wedi'u ffrio'n ddwfn neu eu ffrio'n gyflym ar safle'r ysgol neu yn ystod y broses weithgynhyrchu fwy na dwywaith yr wythnos. | Ni ellir darparu mwy nag un dogn o fwyd wedi'i ffrio'n ddwfn neu eu ffrio'n gyflym (ac eithrio tatws a chynhyrchion tatws) bob wythnos. |
| Dim rheoliadau ar gyfer | Ni chaniateir darparu **cynhyrchion pob wedi'u melysu a phwdinau wedi'u melysu** fwy na theirgwaith bob wythnos.(nid yw hwn yn cynnwys pwdinau wedi'u seilio ar laeth)<br><br>Ni chaniateir darparu cynhyrchion pob wedi'u melysu a phwdinau wedi'u melysu (heblaw am bwdinau wedi'u seilio ar laeth) fwy na theirgwaith bob wythnos. |
| Rhaid darparu melysfwyd sydd wedi ei seilio ar ffrwythau o leiaf ddwywaith bob wythnos. | **O leiaf** 40g (disgyblion iau) neu 20g (babanod) o ffrwythau a/neu lysiau. **O leiaf** 15g o ffrwythau sych i ddisgyblion iau ac o leiaf 10g i fabanod |

| | |
|---|---|
| Nid oes rheoliadau | **Ni chaniateir darparu** crwst na chynhyrchion sy'n cynnwys crwst **fwy nag** unwaith bob wythnos. |
| **Diodydd** | |
| **Cyfredol** | **Arfaethedig** |
| Sudd ffrwythau / sudd llysiau | Ni chaiff sudd ffrwythau ei gynnwys yn y diffiniad o ffrwythau mwyach |
| **Meintiau dognau** | |
| **Cyfredol** | **Arfaethedig** |
| Darperir maint dogn cyffredinol i bob dysgwr | Dau faint dogn gwahanol - un i blant iau, ac un i fabanod<br><br>Bydd dognau plant iau tua ¾ o ddogn oedolyn a dognau babanod tua ½ o ddogn oedolyn.<br><br>Bydd y dognau yn nodi lleiafswm ar gyfer bwyd yr ydym am ei hyrwyddo, ac uchafswm ar gyfer bwydydd yr ydym am eu cyfyngu. |